COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 23AIN O FAI 2022 YN CABAN-Y-PLWYF, YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Elfed Williams (ynghyd a'r Cynghorydd Sir Ddinbych), Philip Williams, Rhian Evans, Barri Evans, ynghyd a Mr Arwel Davies (Aelod o'r Cyhoedd) a'r Clerc y Cyngor.

2. YMDDIHEURIADAU:
Dim.

3. DDATGAN DIDDORDEB:
Dim.

4. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.
Adroddwyd y Clerc fod yna pum sedd wag ar y Cyngor yn dilyn yr etholiadau lleol ar 5ed o Fai 2022 ac mi fydd y Clerc yn cyhoeddi'r "Hysbysiad o Gyfethol" gyda'r dyddiad cau ar gyfer 24ain o Fehefin 2022.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR..
Cadarnhawyd yr aelodau cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25ain o Ebrill 2022.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Derbyniwyd y Clerc lluniau oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams i yrru'n ymlaen at Gyngor Sir Ddinbych:-
A: Cyflwr yr arwydd "No Dog Fouling" ar stad Pont-y-Bedol Llanrhaeadr.
B. Gwely'r bont sydd yn mynd o dan y ffordd ar gyfer y King's Head yn Llanrhaeadr.
C. Llun o'r ffordd wrth Y Lodge yn Llanrhaeadr sydd eisiau llinell ddwbl felyn.

7. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.
Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Elfed Williams ei fod mewn cyswllt gydag arbenigwr lleol ynglŷn â'r wybodaeth sydd angen ar y Panel Wybodaeth yn Llanrhaeadr.

8. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.
Derbyniwyd gwybodaeth fod Mrs Tracey Williams wedi gwario £124.00 am flodau a rhoddwyd caniatâd i'r Clerc ad-dalu'r £124.00 chostau Mrs Williams.

9. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.
Nid derbyniwyd unrhyw adroddiad o flaen y cyfarfod.

10. HYSBYSFWRDD SARON.
Nid derbyniwyd unrhyw adroddiad o flaen y cyfarfod.

11. MATERION CYLLID.
A: Datganiad Banc £13,930.64.
B. Derbyniwyd 2022/23 rhan gyntaf o'r Precept y Cyngor £5,280.00.
C. Chostau'r Banc £5.00.
D. Taliad I Mrs Tracey Williams am gost blodau i'r gymuned £124.00.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO.
A: Cais 23/2022/0369 - Codi adeilad storio amaethyddol gyda storfa slyri oddi tano yn Hafoty Du, Saron. Yr unig sylwad yr aelodau oedd fos lliw'r adeilad yn debyg i liwiau cefndir yr adeilad.
B. Cais 23/2022/0255 - Codi adeiladau allan mewn ysgolion a gwaith cysylltiedig yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

13. GOHEBIAETH.
Derbyniwyd y Clerc galwad ffôn gan Swyddog Ffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn ystod y dydd yn cadarnhau ei fod wedi tynnu arwyddion Urdd Gobaith Cymru ar ochr yr A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr oherwydd iechyd a diogelwch.

14. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Mae Mr Arwel Davies yn cadw llygad ar y datblygiadau'r cyn Eglwys, Prion a Safle Cae'r Mynydd yn Saron.

15. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.
Cafwyd trafodaeth fod ffyrdd yn y gymuned dal eisiau sylw oherwydd cyflwr y ffyrdd.

16. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 27AIN O FEHEFIN 2022 AM 7.30 O'R GLOCH YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION.